# Tywys ceffyl o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â thywys ceffyl o dan oruchwyliaeth. Bydd hyn yn cynnwys tywys ystod o geffylau.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. gwirio bod yr ardal ymarfer yn addas ar gyfer tywys ystod o geffylau, o dan oruchwyliaeth
3. gwirio bod y ceffyl mewn cyflwr addas i gael ei dywys
4. dewis, gwirio a gosod harneisiau ac offer tywys addas ar y ceffyl, yn unol â'r cyfarwyddiadau
5. cadw rheolaeth dros y ceffyl bob amser, sy'n briodol i'r amodau
6. tywys y ceffyl, yn unol â'r cyfarwyddiadau
7. tynnu a storio harneisiau ac offer y ceffyl yn gywir
8. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y rhesymau dros dywys ceffyl
3. y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â thywys ceffylau
4. y mathau a'r defnydd o harneisiau ac offer ceffylau yn cynnwys penwar, llinell dywys a ffrwynau ochr
5. sut i wirio bod y ceffyl yn addas i gael ei dywys ac adnabod arwyddion salwch, cloffni neu anaf fyddai'n effeithio ar les y ceffyl pe byddai'n cael ei weithio
6. y ffyrdd y mae amodau, fel y tywydd, yr arwyneb a cheffylau eraill yn effeithio ar y broses o dywys
7. y cyfnod y dylid tywys ceffyl penodol a pham y mae hyn yn bwysig
8. peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y gellir lleihau'r peryglon hyn
9. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

LANEq212

Tywys ceffyl o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq212 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; tywys; marchogaeth; iechyd a lles anifeiliaid; harneisiau |